

CWVYS Manifesto



This manifesto is presented by the voluntary youth work sector on behalf of, and for, young people in Wales. The sector believes that young people will thrive when the following is achieved:

01

Young people are thriving

- Implement new legislation that defines a statutory function for youth work in Wales
- Creation of a 'Minister for Children and Young People' full cabinet position
- Progression of youth work policy development, ensuring national representation and strategic leadership that places young people at the centre of all planning and best practice issues
- Appointment process for Children's Commissioner for Wales (CCfW) to be reviewed in line with recommendations in the Children's Rights in Wales report produced by the Children, Young People and Education Committee

02

Youth work is accessible and inclusive

- Fully adopt a rights-based approach on behalf of young people in Wales
- Challenge oppression and inequality in the sector
- Ensure there is collaboration and partnership working in the sector – including partnership facilitation plus promoting diversity and inclusion within Wales and internationally

03

Empower youth work volunteers and youth work staff throughout their career

- Provide free access to youth and community courses and incentives for voluntary organisations to support staff and volunteers to access professional and personal development
- Education Workforce Council to register all staff in youth work-related settings

04

Youth work is valued and understood


- Create a National Youth Information Service for the sector and young people
- Support for the creation of a Young Citizens Assembly
- CCfW to work with and for young people up to the age of 25 in line with youth work provision

05

Sustainable model for youth work

- Creation of a national body that brings the voluntary and statutory sector together
- Investment in the sector with transparent and accountable non-hypothesized monies
- Investment in the marketing and communications of the youth work services sector

MANIFFESTO CWVYS



Cyflwynir y maniffesto hwn gan y sector gwaith ieuencid gwirfoddol ar ran, ac ar gyfer, pobl ifanc yng Nghymru. Cred y sector y bydd pobl ifanc yn ffynnu pan gyflawnir y canlynol:

01

Pobl ifanc yn ffynnu

- Cyflwyno deddfwriaeth newydd sy'n diffinio swyddogaeth statudol ar gyfer gwaith ieuencid yng Nghymru
- Creu swydd gabinet lawn 'Gweinidog Plant a Phobl Ifanc'
- Dilyniant datblygu polisi gwaith ieuencid, gan sicrhau cynrychiolaeth genedlaethol ac arweinyddiaeth strategol sy'n rhoi safle canolog i bobl ifanc mewn unrhyw faterion cynllunio ac arfer gorau
- Adolygu'r broses benodi i Gomisiynydd Plant Cymru (CCfW) yn unol ag argymhellion yn yr adroddiad Hawliau Plant yng Nghymru a luniwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

02

Gwaith ieuencid hygyrch a chynhwysol

- Mabwysiadu'n llawn dull sy'n seiliedig ar hawliau ar ran pobl ifanc yng Nghymru
- Herio gormes ac anghydraddoldeb yn y sector
- Sicrhau cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn y sector – gan gynnwys hwyluso partneriaeth ynghyd â hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant yng Nghymru ac yn rhwngwladol

03

Grymuso gwirfoddolwyr gwaith ieuencid a staff gwaith ieuencid trwy gydol eu gyrrfa

- Darparu mynediad am ddim i gyrsiau ieuencid a chymunedol a chymhellion i sefydliadau gwirfoddol gynorthwyo staff a gwirfoddolwyr i gael mynediad at ddatblygiad proffesiynol a phersonol
- Cyngor y Gweithlu Addysg i gofrestru pob aelod o staff mewn lleoliadau gwaith ieuencid

04

Bod gwaith ieuencid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall

- Creu gwasanaeth Gwybodaeth Ieuencid Cenedlaethol ar gyfer y sector a phobl ifanc
- Creu Senedd Dinas-y-ddion Ifanc
- CCfW i weithio gyda ac ar ran pobl ifanc hyd at 25 oed yn unol â darpariaeth gwaith ieuencid

05

Model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuencid

- Creu corff cenedlaethol sy'n dod â'r sector gwirfoddol a statudol at ei gilydd
- Buddsoddiad yn y sector gydag arian tryloyw ac atebol heb ei glustnodi
- Buddsoddiad ym maes marchnata a chyfathrebu'r sector gwasanaethau gwaith ieuencid